*Defnyddiwyd y ddogfen hon yn ystod cam casglu ymatebion gwaith Cyfrifiad Materion Bwyd (Rhagfyr 2024–Ionawr 2025) i gefnogi sefydliadau yn eu cyfranogiad.*

## Arolwg y Cyfrifiad Materion Bwyd 2024–2025 – Cwestiynau Cyffredin

### 1. A yw fy ngwaith yn berthnasol i'r arolwg?

Mae'r arolwg hwn yn edrych ar waith nid-er-elw neu waith er budd y cyhoedd sy'n ymwneud â bwyd a ffermio yn y DU. Mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n digwydd nawr neu a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ac mae'n canolbwyntio ar sefydliadau sy'n gweithio yn y DU neu sy'n derbyn cyllid elusennol o'r DU.

Mae wedi'i anelu at y sefydliadau hynny sy'n gweithio yn y maes bwyd ac sy'n gweithredu yn y maes hwnnw. Mae'n cwmpasu ystod eang o waith, yn amrywio o brosiectau cymunedol bach sy'n mynd i'r afael â materion lleol i ymgyrchoedd mawr ar heriau byd-eang. Nid oes angen i fwyd fod yn brif ffocws i'ch gwaith er mwyn cymryd rhan. Dyma rai enghreifftiau o waith sydd o fewn cwmpas yr arolwg ac y dylid ei gynnwys:

- Prosiect sy'n helpu pobl ifanc ac y mae tyfu bwyd yn rhan o'i weithgareddau.
- Menter gymdeithasol sy'n hyfforddi ffoaduriaid i ddod yn gogyddion er mwyn eu helpu i ddod o hyd i swyddi.
- Prifysgol sy'n gwneud ymchwil neu waith eirioli ar fwyd a ffermio er lles y cyhoedd.

Os nad ydych yn siŵr a yw eich gwaith yn cydweddu â'r arolwg, anfonwch e-bost at nadeen@foodethicscouncil.org i holi.

### 2. Ai arolwg o unigolion, prosiectau neu sefydliadau yw hwn?

Arolwg ar gyfer sefydliadau yw hwn. Dyma beth rydym yn ei olygu wrth "sefydliad" ar gyfer yr arolwg hwn:

- Cynghreiriau neu rwydweithiau
- Elusennau cofrestredig
- Mentrau cymdeithasol neu fusnesau di-elw
- Cwmnïau cydweithredol neu gydfuddiannol
- Cwmnïau buddiant cymunedol
- Cwmnïau cyfyngedig drwy warant
- Grwpiau anghorfforedig (e.e. clwb neu brosiect untro)
- Undebau llafur
- Cymdeithasau masnach neu gyrff proffesiynol
- Pleidiau gwleidyddol neu grwpiau ffydd

- Ysgolion, prifysgolion, neu sefydliadau addysg ac ymchwil eraill
- Cyrff y sector cyhoeddus (gan gynnwys cyrff cyhoeddus anadrannol)

Nid yw hwn yn arolwg ar gyfer unigolion neu brosiectau o fewn sefydliadau mwy o faint. Yn yr achosion hynny, dylai'r arolwg gwmpasu'r sefydliad cyfan, hyd yn oed os mai dim ond rhan fach o'i waith sy'n ymwneud â bwyd.

Mae hyn yn ein helpu i osgoi cyfrif yr un gwaith ddwywaith. Os ydych yn ansicr a yw eich gwaith yn cydweddu â'r arolwg neu'n meddwl y dylid ei gynnwys o hyd, cysylltwch â ni

## 3. Pwy ddylai gwblhau'r arolwg ar ran fy sefydliad?

Dim ond un ymateb y byddwn yn gofyn amdano gan bob sefydliad, felly mae'n syniad da trafod gyda'ch cydweithwyr pwy yw'r person gorau i'w lenwi.

Dylai'r person sy'n cwblhau'r arolwg:

Fod â chyfrifon blynyddol neu gyfrifon rheoli diweddaraf eich sefydliad wrth law.

Gwybod am eich trefniadau staffio a'ch gweithgareddau sy'n ymwneud â bwyd a ffermio.

Mewn sefydliadau mwy, gallai hwn fod yn uwch reolwr sy'n gyfrifol am strategaeth, am godi arian neu am adnoddau dynol.

## 4. A oes unrhyw gymorth ar gael i bobl a sefydliadau gymryd rhan yn yr arolwg?

Rydym yn ymrwymedig i gynnwys ystod amrywiol o sefydliadau yn y prosiect hwn.  Er mwyn goresgyn y rhwystrau i gyfranogi, rydym wedi sefydlu Cronfa Gynhwysiant y Cyfrifiad Materion Bwyd.

Nod y gronfa yw darparu cymorth ariannol ac ieithyddol i sefydliadau ar lawr gwlad a phobl sy'n cynrychioli'r sefydliadau hynny na fyddent o bosibl yn gallu cymryd rhan yn y broses fel arall, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf.

Mae'r gronfa'n cynnig taliadau o hyd at £250 i gynorthwyo sefydliadau i gymryd rhan yn y gwaith hwn, gan gynnwys amser i gwblhau'r arolwg a/neu amser i gymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â'r prosiect. Gall ymgeiswyr ofyn am swm yn seiliedig ar yr amser y maent yn bwriadu ei neilltuo. Gallwch ddarllen mwy am y gronfa a sut y gallwch wneud cais iddi yma.

## 5. Sut mae cwblhau'r arolwg?

Gallwch gwblhau'r arolwg ar-lein drwy glicio ar y botwm NESAF ar waelod y dudalen hon. Mae'r arolwg yn cynnwys cyfarwyddiadau byr i'ch helpu i ateb pob cwestiwn. Os na allwch gwblhau'r arolwg ar-lein, cysylltwch â ni.

## 6. Pa mor hir fydd yr arolwg yn ei gymryd?

Mae'r arolwg yn gofyn hyd at 43 o gwestiynau a dylai gymryd 30 i 60 munud. Mae hyn yn seiliedig ar brofiad nifer bach o sefydliadau sydd wedi profi'r arolwg.

Rydym yn sylweddoli bod hwn yn fuddsoddiad sylweddol o ran amser, ond mae cymryd rhan yn eich galluogi i ddylanwadu ar ddyfodol cyllid – a gobeithiwn y bydd y canlyniadau'n ddefnyddiol i'ch sefydliad chi yn ogystal ag i'r sector ehangach

## 7. A allaf ddechrau'r arolwg nawr a'i orffen yn ddiweddarach?

Gallwch adael yr arolwg ar unrhyw adeg drwy glicio ar y botwm 'Cadw' ar waelod unrhyw dudalen. Pan fyddwch yn gwneud hynny, byddwch yn cael e-bost gyda dolen i barhau o'r man y gwnaethoch chi stopio.

Fel arall, gallwch ddefnyddio'r opsiwn 'Cael Dolen i'r Drafft' i gadw copi o'r arolwg er mwyn cael mynediad hawdd ato.

I barhau o'r man y gwnaethoch chi stopio, defnyddiwch y ddolen rydych wedi'i chadw neu'r ddolen yn yr e-bost (gwiriwch eich ffolder sothach os nad yw'n cyrraedd ar unwaith).

## 8. Pa fath o gwestiynau y mae'r arolwg yn eu gofyn?

Mae'r arolwg yn cynnwys hyd at 43 o gwestiynau, gan ddechrau gyda manylion cyswllt sylfaenol fel y gallwn gysylltu â chi os oes angen. Mae rhai yn gwestiynau amlddewis, tra bod eraill yn gofyn am atebion testun rhydd. Maen nhw'n gofyn am wybodaeth am y gwaith rydych chi'n ei wneud, pobl ac adnoddau, eich perthnasoedd a'ch cysylltiadau, llwyddiannau ysbrydoledig a'r dyfodol.

## 9. Pa wybodaeth fydd ei hangen arnaf er mwyn cwblhau'r arolwg?

Bydd angen cyfrifon blynyddol neu gyfrifon rheoli diweddaraf eich sefydliad, cyfrifon ariannol, a dealltwriaeth dda o'r trefniadau staffio a gweithgareddau ar draws gwaith eich sefydliad ar faterion bwyd a ffermio.

## 10. Beth os na allaf ateb cwestiwn penodol?

Mae angen rhoi ateb ar gyfer llawer o gwestiynau yn yr arolwg, sef y rhai wedi'u nodi â seren (*). Mae hyn yn golygu y byddwch yn cael neges gwall os na fyddwch yn eu hateb. Mae'r cwestiynau hyn yn hanfodol i sicrhau ein bod yn casglu digon o wybodaeth ar gyfer dadansoddiad ystyrlon.

Os na allwch ateb cwestiwn penodol (e.e., os nad oes gennych wefan), gofynnwn i chi:

- Ysgrifennu "Ddim yn Berthnasol" ar gyfer atebion testun rhydd, neu
- Dewis yr opsiwn "Ddim yn Berthnasol" o'r rhestr amlddewis.

Bydd hyn yn caniatáu i chi barhau â'r arolwg.

## 11. Beth fydd yn digwydd gyda'r canlyniadau?

Bydd y Cyngor Moeseg Bwyd yn llunio adroddiad yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg. Bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd, a bydd pawb sy'n cwblhau'r arolwg yn cael copi electronig pan gaiff ei gyhoeddi.

Bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu ar ffurf data crai ac fel adroddiad manwl. Bydd yr arolwg yn rhoi trosolwg o waith cyfredol cymdeithas sifil ar faterion bwyd a ffermio ac yn amlygu'r tasgau a'r argymhellion a rannwyd gan y cyfranogwyr.

Bydd y Cyfrifiad yn gweithredu fel ffynhonnell y gellir ymddiried ynddi er mwyn i gyllidwyr ddeall y sector bwyd a ffermio yn well, nodi materion allweddol, a nodi bylchau mewn adnoddau. Bydd hyn yn helpu cyllidwyr i dargedu eu hadnoddau'n fwy effeithiol.

Gall sefydliadau sy'n cymryd rhan ei ddefnyddio hefyd fel sail i benderfyniadau, gwaith eirioli, partneriaethau a chynigion cyllido.

## 12. Pwy fydd yn gallu darllen fy atebion?

Bydd y rhan fwyaf o'r data yn yr adroddiad ac ar y wefan yn ddienw ac yn cael eu cyfuno (eu grwpio gyda'i gilydd). Fodd bynnag, bydd rhai eithriadau:

Byddwn yn cynnwys rhestr o sefydliadau sydd wedi cwblhau'r arolwg.

Efallai y byddwn yn cysylltu dyfyniadau neu ddata â math o sefydliad neu rôl, er enghraifft: "Dywedodd rheolwr banc bwyd yn Lerpwl: 'Mae'r galw am ein gwasanaethau wedi cynyddu, ond nid yw ein hadnoddau wedi cynyddu i gyd-fynd â hynny.'" neu "Tynnodd sefydliad addysg ffermio yng Nghymru sylw at gyfyngiadau amser a chyllid cyfyngedig fel y prif rwystrau i gydweithio."

Mae'n bosibl y byddwn yn creu darlun gweledol sy'n dangos sut y mae sefydliadau wedi'u cysylltu o fewn system neu'n nodi pa sefydliadau sy'n ystyried eu hunain yn rhan o symudiadau penodol. Yn yr achos hwn, gallai enw eich sefydliad a'r sefydliadau y mae gennych berthynas â nhw gael eu rhannu.

Mewn rhai achosion, efallai y byddwn am briodoli dyfyniad neu ddata i berson neu sefydliad penodol, ond dim ond gyda'u caniatâd y byddwn yn gwneud hynny.

## 13. Sut y gallaf ddarganfod mwy am y sefydliadau sy'n rhan o'r cyfrifiad?

Mae'r gwaith hwn yn cael ei hwyluso gan y Cyngor Moeseg Bwyd ac yn cael ei gefnogi gan nifer o sefydliadau mewn gwahanol ffyrdd sydd wedi'u cynrychioli mewn grŵp llywio sy'n cydweithio i ddylunio a chyflawni'r gwaith. Isod, mae rhestr o sefydliadau a'u rôl. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y sefydliadau dan sylw drwy fynd i'r gwefannau canlynol:

| Logo Sefydliad | Enw Sefydliad | Rôl Gefnogol | Gwefan |
|---|---|---|---|
| | Cyngor Moeseg Bwyd | Hwylusydd y prosiect, aelod o'r grŵp llywio | www.foodethicscouncil.org |
| | Sustain | Aelod o'r grŵp llywio | www.sustainweb.org |
| | Platform London | Aelod o'r grŵp llywio | www.platformlondon.org |
| | A Team Foundation | Cyllidwr, aelod o'r grŵp llywio | www.ateamfoundation.org |
| | Treebeard Trust | Cyllidwr, aelod o'r grŵp llywio | www.treebeardtrust.org |
| | Farming the Future | Cyllidwr, aelod o'r grŵp llywio | www.farmingthefuture.uk |
| | Sefydliad Esmee Fairbairn | Cyllidwr, aelod o'r grŵp llywio | www.esmeefairbairn.org.uk |
| | Sefydliad Ennismore | Cyllidwr, aelod o'r grŵp llywio | www.ennismore.com |
| | Nourish Scotland | Partner gwlad (yr Alban), aelod o'r grŵp llywio | www.nourishscotland.org.uk |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Synnwyr Bwyd Cymru | Partner gwlad (Cymru), aelod o'r grŵp llywio | www.foodsensewales.org |
| | Play Think Brink | Partner gwlad (Gogledd Iwerddon), aelod o'r grŵp llywio | www.playthinkbrink.com |